**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 5ed Rhagfyr 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones,
Mrs E. M. Chard, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, A. R. James, A. S. Johnson,
B. Jones, K. R. Jones, Ms J. McAlpine, Miss S. L. Roberts, T. Thomas
a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 79. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIAD

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes, K. R. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts ac R. J. Turner.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth drist y cyn-gynghorydd tref Mr Peter Williams, a wasanaethodd ar y Cyngor Tref am gyfanswm o 32 o flynyddoedd, ac a oedd wedi bod yn Faer ddwywaith.

Safodd y cyfarfod am funud o dawelwch i gofio Mr Williams.

## 80. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – TACHWEDD 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 607 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 2,500.00 | Ffi Rheoli Canolfan Tynewydd Ch2 2018/19 |
| 608 | HSBC | 5.50 | Taliadau Banc 17/09/18 hyd at 16/10/18 |
| 609 | Cyngor Sir y Fflint | 4,214.51 | Cyfraniadau Pensiwn a Diffyg Hydref 2018 |
| 610 | HMRC | 2,649.35 | Didyniadau Cyflog Hydref 2018 |
| 611 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,885.53 | Cyflogau Staff Tachwedd 2018 |
| 612 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Medi 2018 |
| 475 | Cyngor Sir Ddinbych | 707.00 | TANC ar gyfer Ffordd Wellington - Taliad 8 o 10 |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau Rhan-amser - Taliad 8 o 12 |
| 613 | Canda Copying | 125.10 | Rhentu a Chopïau Du a Gwyn |
| 614 | Canda Copying | 309.49 | Copïau lliw |

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm taliadau** | **£19,913.14** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 81. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 621 | SLCC | Ffioedd proffesiynol ar gyfer Mr. G. Nickels | 357.00 |
| 622 | Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio goleuadau yn y Gerddi Coffa | 241.70 |
| 623 | Sioned Graham-Cameron | Gwasanaeth cyfieithu | 425.84 |
| 624 | Cyngor Sir Ddinbych | Noson Elusen Maer Dinbych 2 x tocyn | 15.00 |
| 625 | Sant Ioan Cymru | Cymorth Cyntaf yn y digwyddiad Y Rhyl Wyllt | 72.00 |
| 626 | Cyngor Tref Be Colwyn | Cyfraniad i Fore Coffi | 5.00 |
| 627 | Cyngor Sir Ddinbych | Bwffe, te a choffi Sul y Coffa - 150 o westeion | 772.50 |
| 628 | Geidiau Ardal y Rhyl | Digwyddiad codi arian – 2 docyn | £30 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£1,919.04** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 82. ADRODDIAD SICRHAD CADEIRYDD ASESU RISG

Yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynwyd adroddiad y Cadeirydd (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), ac nid oedd meysydd o bryder i'w codi.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 83. CANSLO CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL YM MIS IONAWR 2019

Cadarnhaodd Clerc y Dref bod cyfarfod mis Ionawr wedi ei ganslo, gyda chytundeb y Cadeirydd ac oherwydd y cyfyngiadau amser afresymol i lynu at y rheolau statudol i baratoi papurau'r cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *bod y cyfarfod yn cael ei ganslo.*

**84. EITEM GAN AELOD: DIGWYDDIAD ‘GWYRDD’/’ECO’ ARFAETHEDIG**

Gofynnodd y Cynghorydd A. S. Johnson am gefnogaeth yr aelodau i gynnal digwyddiad ‘gwyrdd’ yn y Rhyl, yn dathlu a hyrwyddo busnesau ‘gwyrdd’ ledled Gogledd Cymru ac arddangos gweddnewidiad parhaus y Rhyl.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio’r digwyddiad at y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i’w ystyried ymhellach.*

**85. EITEM ER GWYBODAETH I’R AELODAU: DYDDIAU PARCIO AM DDIM YN Y RHYL**

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cyngor Tref hyd yma ond wedi defnyddio un o’r pum diwrnod parcio am ddim blynyddol, gan adael pedwar ar ôl ar gyfer mis Rhagfyr i annog siopwyr i ddod i’r dref.

Gwirfoddolodd y Cynghorwyr A. R. James, K. R. Jones a Mrs D. L. King i ddodi arwyddion a’u tynnu oddi ar y peiriannau tocynnau trwy gydol mis Rhagfyr. Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford weithredu fel gwirfoddolwr wrth gefn os nad oedd y tri cynghorydd yn medru delio gyda’r peiriannau ar unrhyw adeg.

***PENDERFYNWYD*** *defnyddio’r pedwar diwrnod ar ddydd Sadwrn 8fed, Sadwrn 15fed, Sadwrn 22ain a Sadwrn 29ain Rhagfyr ym meysydd parcio Kinmel Street a Morley Road, y Twr Awyr, y mannau i bobl anabl yn y llyfrgell a Queen Street.*

86. **GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**87. DARPARU GWASANAETH DIGWYDDIADAU A CHYHOEDDUSRWYDD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) yn crynhoi’r tri dyfynbris a dderbyniwyd ar gyfer y contract uchod ar gyfer 2019/20 gydag opsiwn i ymestyn am 12 mis arall y tu hwnt i’r cyfnod hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo argymhelliad y swyddogion i roddi’r contract i Gunsmoke Communications.*

**88. MATERION T.G. / ADNEWYDDU CYFARPAR ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda’r rhaglen) yn dweud bod pedwar cyfrifiadur y Cyngor Tref yn dechrau mynd yn ddiffygiol. Nid oedd Clerc y Dref wedi medru defnyddio ei gyfrifiadur am rai wythnosau.

Y cyngor gan arbenigwr TG y Cyngor Tref oedd adnewyddu’r pedwar peiriant gyda’r pecynnau meddalwedd diweddaraf i sicrhau cydnawsedd yn fewnol ac yn allanol, tra’n sicrhau pris uned is o £790 i £766, cyfanswm pris £3,064.

Adroddwyd y byddai angen adnewyddu prif weinydd y Cyngor yn y dyfodol hefyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo uwchraddio'r pedwar cyfrifiadur.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**89. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r argymhellion ynddo i'w hystyried, eu diwygio a'u cymeradwyo ar gyfer y gyllideb a lefel y praesept ar gyfer 2019/20.

Roedd Clerc y Dref yn falch o adrodd, oherwydd cynnydd yn ddiweddar yn ffigurau poblogaeth y Rhyl, y byddia'r cynnydd a gynlluniwyd yn y praesept o 4.5% nawr yn gostwng i 3.9% fesul aelwyd.

Diolchwyd i'r amrywiol Gadeiryddion a'r Pwyllgor CSG am eu gwaith ar y gyllideb a'r cynllun ariannol pum mlynedd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r gyllideb ddrafft 2019/20 a'r cynllun ariannol pum mlynedd i'w hargymell i'r Cyngor.*

**90. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:…………….……..

Dyddiad: ……………………..